cronfa newydd "MSCI Low Carbon". Derbyniwyd bod hyn yn gyfle i dderbyn gwybodaeth ychwanegol fyddai yn ehangu gorwelion aelodau'r Pwyllgor.

Ategodd y Pennaeth Cyllid bod Paul Potter o Hymans wedi cynnig paratoi adroddiad, i'w drafod yn y Panel Buddsoddi, fyddai yn amlinellu egwyddorion buddsoddi cytunedig aelodau a swyddogion Gwynedd ar sail ymatebion i'r holiaduron ar gyfer y sesiwn hyfforddiant. Y bwriad yw i'r Panel argymell sylwadau o'r adroddiad ymlaen i'r Pwyllgor nesaf.

**PENDERFYNWYD:**
**Treialu cynnal cyfarfodydd paratoi anffurfiol cyn y Paneli Buddsoddi.**
**Gwahodd cwmni Blackrock i gyfarfod buan o'r Panel Buddsoddi. Gwneud cais i Hymans ddarparu adroddiad ar egwyddorion buddsoddi Gwynedd.**

**6. PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Pennaeth Cyllid ar ddatblygiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. Yn dilyn datganiad i'r wasg, cadarnhawyd bod Link Asset Services wedi ei penodi fel gweithredwr i gronfa'r bartneriaeth yn dilyn proses gaffael drylwyr gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'r ymgynghorwyr, Hymans Robertson a Burges Salmon.

Adroddwyd y byddai Link yn sefydlu ac yn cynnal cyfrwng buddsoddi ar y cyd fyddai'n dreth-effeithlon ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ategwyd bod Link, gyda chymorth Russell Investments (mewn rôl ymgynghorydd buddsoddi), ac mewn ymgynghoriad â'r wyth cronfa awdurdod lleol unigol, wedi dechrau cynllunio'r broses o benodi cwmnïau rheolwyr buddsoddi.

Amlygwyd bod penodi Link yn gam cadarnhaol ac yn garreg filltir ar y daith o sefydlu Cerbyd Buddsoddi Cyfunol, yn unol â gofynion Llywodraeth San Steffan. Adroddwyd bod y broses bellach mewn cyfnod sefydlu gyda chynllun prosiect wedi ei raglennu.

Y bwriad yw y byddai Link, gyda chefnogaeth Partneriaeth Pensiynau Cymru, yn sefydlu **un** is-gronfa Ecwiti Byd-Eang i ddechrau, er mwyn arddangos eu bod yn 'weithredol' yn amserol, ac yna gwneud gwaith manwl ar strwythurau cyn lansio is-gronfeydd eraill. Byddai modd treialu'r un is-gronfa er mwyn cael cyfle i addasu ac adolygu'r swm i'w fuddsoddi ynddo fel yn briodol. Bydd Link yn cyflwyno papur i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ym mis Mawrth, fydd yn manylu ar yr holl is-gronfeydd eraill a'u hamserlenni.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 2:30pm

dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn parhau i geisio rheoli chwyddiant, ym mis Tachwedd 2017 cynyddodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr y cyfraddau llog swyddogol i 0.5%.

I'r gwrthwyneb, mae economi'r Unol Daleithiau yn perfformio'n dda, ac mae'r Gronfa Ffederal yn cynyddu cyfraddau llog fesul cam yn gyson er mwyn cael gwared â rhywfaint o'r ysgogiad ariannol brys a ddarparwyd gan y gronfa dros y degawd diwethaf. Nid yw Banc Canolog Ewrop wedi cynyddu cyfraddau llog eto, ond mae wedi dechrau arafu ei raglen *'Quantitive Easing'*, sy'n arwydd o hyder yn economi Ardal yr Ewro.

2.2 **Rhagolygon credyd**

Mae methiannau bancio amlwg yn yr Eidal a Phortiwgal wedi atgyfnerthu'r pryderon am iechyd sector bancio Ewrop. Mae economïau araf a dirwyon am ymddygiadau cyn yr argyfwng yn parhau i effeithio ar elwau'r banciau, a byddai unrhyw arafwch economaidd pellach yn gwaethygu'r sefyllfa hon.

Mae deddfwriaeth *'bail-in'*, sy'n sicrhau mai buddsoddwyr mawr, gan gynnwys awdurdodau lleol, fydd yn achub banciau sy'n methu yn hytrach na threthdalwyr yn y dyfodol, bellach wedi'i weithredu yn llawn yn yr Undeb Ewropeaidd, y Swistir a'r Unol Daleithiau, ac mae Awstralia a Chanada yn symud ymlaen gyda'u cynlluniau eu hunain. Yn ogystal, bydd banciau mwyaf y DU yn diogelu eu swyddogaethau bancio masnachol drwy greu endidau cyfreithiol ar wahân yn ystod 2018. Mae peth ansicrwydd yn parhau am y sut y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gryfder credyd yr endidau cyfreithiol sy'n weddill.

Mae'r risg i gredyd wrth wneud adneuon banc ansicredig felly wedi cynyddu, o'i gymharu â risgiau opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael i'r Awdurdod; ond mae'r enillion o adneuon arian parod yn parhau yn isel iawn.

2.3 **Rhagolygon Cyfraddau Llog**

Achos canolog Arlingclose, ymgynghorydd trysorlys yr Awdurdod, yw y bydd Cyfradd Banc y DU yn parhau yn 0.50% yn ystod 2018/19, yn dilyn y cynnydd o'r gyfradd isel hanesyddol o 0.25%. Pwysleisiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol eto y gellid disgwyl mai graddol a chyfyngedig fyddai unrhyw gynnydd yn y Gyfradd Banc.

Mae'r disgwyliadau ar gyfer cyfraddau uwch yn y tymor byr yn isel; mae penderfyniadau yn parhau'n ddibynnol ar y data, a mae'r trafodaethau ar adael yr UE yn cysgodi'r penderfyniadau ar bolisi ariannol. Mae'r risgiau i ragolygon Arlingclose wedi'u cydbwyso i raddau ar y ddwy ochr. Barn Arlingclose yw y bydd enillion 'gilt' yn parhau'n gymharol sefydlog yn ystod y tymor canolig. Bydd y symudiad tuag at i fyny yn gyfyngedig, er bod dirywiad ymddangosiadol safiad ariannol llywodraeth y DU yn risg bositif.

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn ***Atodiad 1.***

**Atodiad 1**

**Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Tachwedd 2017**

- Yn dilyn pleidlais o 7 i 2, cynyddodd y Pwyllgor Polisi Ariannol y Gyfradd Banc yn unol â disgwyliadau'r farchnad i 0.5%. Arweiniodd y rhethreg cymodlon cysylltiedig at fuddsoddwyr yn gostwng y llwybr disgwyliedig ar gyfer cyfraddau llog at y dyfodol. Pwysleisiodd y cofnodion y byddai unrhyw gynnydd arfaethedig yn y Gyfradd Banc fod yn raddol a chyfyngedig.

- Mae unrhyw symudiadau pellach arfaethedig yn y Gyfradd Banc yn ddibynnol ar ddata economaidd a chanlyniadau tebygol trafodaethau'r UE. Wrth lunio polisi, aseswyd y byddai capasiti cyflenwi economi'r DU yn gostwng, gan awgrymu bod twf o ganlyniad i chwyddiant yn fwy tebygol. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol yn wyliadwrus o godi cyfraddau llawer uwch gan fod hyder ymysg busnesau ac aelwydydd yn isel.

- Mae economi'r DU yn wynebu rhagolygon heriol gan fod y llywodraeth leiafrifol yn parhau i drafod gadael yr Undeb Ewropeaidd. Er bod y data economaidd diweddar wedi gwella, gwan iawn oedd y sefyllfa gychwynnol: yn Chwarter 3 2017, gwelwyd twf o 0.4% yn Nghynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) y DU, yn dilyn cynnydd o 0.3% yn Chwarter 2.

- Mae'r twf mewn treuliant aelwydydd, sef prif yrrwr twf GDP y DU wedi arafu yn ddiweddar, yn dilyn gostyngiad mewn gwir gyflogau, er bod cyfraddau cynilo a symiau credyd defnyddwyr yn dangos bod rhai aelwydydd yn parhau i wario er nad yw cyflogau ar gynnydd. Mae'r rhai sy'n llunio polisïau wedi mynegi pryder am y parhad yn y cynnydd yng nghredyd defnyddwyr; byddai unrhyw gamau gweithredu yn arwain at ostyngiad pellach yn y gwariant gan aelwydydd.

- Mae peth o'r data yn fwy positif na'r disgwyl, gyda diweithdra yn parhau i ostwng a phrisiau tai yn parhau'n gymharol gryf. Fodd bynnag, gellir ystyried y ffactorau hyn hefyd mewn golau negatif, gan ddangos y diffyg buddsoddiad strwythurol yn economi'r DU yn dilyn yr argyfwng ariannol. Gallai twf hirdymor îs arwain at ddirywiad yn sefyllfa gyllidol y DU.

- Gallai dibrisiant y bunt gynorthwyo'r economi i ddod â chydbwysedd oddi wrth gwariant. Bydd maint yr allforion yn cynyddu, wedi'u cynorthwyo gan ymestyniad economaidd cryfach yn Ardal yr Ewro.

- Mae'r rhagolygon tymor byr byd-eang wedi parhau i wella ac ehangu, ac mae'r disgwyliadau o ran chwyddiant yn isel. Mae'r banciau canolog yn gweithredu i ostwng lefel yr ysgogiad cyllidol.

- Mae'r risgiau daear-wleidyddol yn parhau'n uchel, ac yn helpu i gyfeirio llif arian statws-diogel i farchnad bondiau (‘gilt’) llywodraeth y DU.

**Rhagolygon:**

- Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol wedi cynyddu'r Gyfradd Banc, yn bennaf i ddiwallu'r disgwyliadau a grëwyd ganddynt eu hunain. Mae'r disgwyliadau ar gyfer cyfraddau uwch yn y tymor byr yn isel. Mae'r penderfyniadau parhaus yn dibynnu ar y data, ac mae'r trafodaethau ar adael yr UE yn cysgodi'r penderfyniadau ar bolisi ariannol.

- Ein hachos canolog ar gyfer y Gyfradd Banc yw 0.5% dros y tymor canolig. Mae'r risgiau i'r rhagolygon yn fras wedi'u cydbwyso ar y ddwy ochr.

- Achos canolog Arlingclose yw y bydd enillion gilt yn parhau'n gymharol sefydlog yn ystod y tymor canolig. Bydd y symudiad tuag at i fyny yn gyfyngedig, er bod dirywiad ymddangosiadol safiad ariannol llywodraeth y DU yn risg bositif.

| | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Dec-18 | Mar-19 | Jun-19 | Sep-19 | Dec-19 | Mar-20 | Jun-20 | Sep-20 | Dec-20 | Average |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | **0.19** |
| Arlingclose Central Case | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | **-0.15** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 3-month LIBID rate | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | **0.22** |
| Arlingclose Central Case | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** | **0.50** |
| Downside risk | -0.10 | -0.10 | -0.15 | -0.15 | -0.15 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | **-0.20** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 1-yr LIBID rate | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.15 | 0.15 | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | **0.27** |
| Arlingclose Central Case | **0.70** | **0.70** | **0.70** | **0.70** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.77** |
| Downside risk | -0.15 | -0.20 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.30 | -0.15 | -0.15 | **-0.26** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 5-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **0.75** | **0.75** | **0.80** | **0.80** | **0.80** | **0.85** | **0.90** | **0.90** | **0.95** | **0.95** | **1.00** | **1.05** | **1.10** | **0.89** |
| Downside risk | -0.20 | -0.20 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.35 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | **-0.33** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 10-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.25** | **1.30** | **1.30** | **1.35** | **1.40** | **1.45** | **1.50** | **1.55** | **1.55** | **1.36** |
| Downside risk | -0.20 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | -0.40 | **-0.33** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 20-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.85** | **1.85** | **1.85** | **1.85** | **1.85** | **1.90** | **1.90** | **1.95** | **1.95** | **2.00** | **2.05** | **2.05** | **2.05** | **1.93** |
| Downside risk | -0.20 | -0.30 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.45 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | **-0.38** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 50-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | **0.32** |
| Arlingclose Central Case | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.70** | **1.75** | **1.80** | **1.85** | **1.90** | **1.95** | **1.95** | **1.95** | **1.95** | **1.82** |
| Downside risk | -0.30 | -0.30 | -0.25 | -0.25 | -0.30 | -0.35 | -0.40 | -0.45 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | **-0.39** |

